Dan embargo llym tan 1pm – 10 Rhagfyr 2013

# PROSIECT GWYRDD

*PRESS RELEASE/* **DATGANIAD I'R WASG**

**TROI PROBLEM YN ADNODD**

**Llofnodi contract gyda Viridor**

Mae Prosiect Gwyrdd, consortiwm rhwng pump o Gynghorau De Cymru, wedi llofnodi contract gyda Viridor i greu ynni gwyrdd o'r sbwriel sy'n weddill ar ôl ailgylchu a chompostio.

Bydd y bartneriaeth yn arbed £11m miliwn i'r awdurdodau partner yn y flwyddyn gyntaf a £500m miliwn dros gyfnod y contract o'i gymharu â'r trefniadau cyfredol. Yn ystod cam comisiynu'r contract bydd y Cynghorau partner yn dechrau anfon gwastraff o fis Medi 2015 gyda'r gwasanaeth llawn yn cael ei roi ar waith ar 1 Ebrill 2016.

Cynhaliwyd proses dendro gadarn a chystadleuol ar gyfer y Prosiect ac mae datrysiad Viridor yn cynrychioli gwerth gwych am arian, mae'n ddiogel ac wedi'i brofi, ac mae'n ddatrysiad amgylcheddol a chynaliadwy ar gyfer y sbwriel sy'n weddill.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau ailgylchu heriol sydd wedi'u nodi dan y gyfraith ac mae pob Cyngor yn ymrwymedig i'w cyflawni.

Bydd y contract yn cynyddu cyfraddau ailgylchu o 5% drwy echdynnu unrhyw fetel sy'n weddill a defnyddio lludw gwaelod llosgydd (IBA) fel agreg ar gyfer deunydd adeiladu. Mae'r cyfleuster wrthi'n cael ei adeiladu ar Barc Trident yng Nghaerdydd ac mae'n cynrychioli buddsoddiad o fwy na £223m gan Viridor gan greu swyddi a buddsoddiad gwerthfawr yng Nghymru. Ers dechrau'r rhaglen adeiladu mae Viridor wedi gwario dros £17.4m gyda 61 o gwmnïau gwahanol o Gymru ar ddeunyddiau, peiriannau ac isgontractwyr a, gan ddisgwyl i'r gwaith adeiladu barhau am flwyddyn arall, bydd y buddsoddiad yn cynyddu.

Mae swyddi wedi'u creu yn lleol. Mae'r ystadegau'n dangos bod 219 o weithwyr wedi'u cyflogi ar y safle ym mis Awst, gyda'r ffigur yn cynyddu i 267 ym mis Medi, 379 ym mis Hydref, a 431 ym mis Tachwedd. Caiff 40 o swyddi llawn amser eu creu pan fydd y safle'n weithredol, a cheir cyfleoedd prentisiaeth a hyfforddiant hefyd.

Ymysg y buddion eraill bydd cronfa gymunedol o £50,000 y flwyddyn i gefnogi projectau lleol yn y 5 awdurdod lleol; canolfan ymwelwyr i alluogi'r cyhoedd i weld y gwaith yn mynd rhagddo; a Grŵp Cyswllt â'r Gymuned sy'n cynnwys preswylwyr, Aelodau Etholedig a Chyfoeth Naturiol Cymru, i ymgysylltu â'r Prosiect.

Bydd Prosiect Gwyrdd yn darparu 172,000 tunnell o wastraff y flwyddyn ar gyfartaledd, a chapasiti'r safle yw 350,000 tunnell. Bydd y cyfleuster yn cynhyrchu 28MW o bŵer drwy gynhyrchu trydan, a all ddiwallu anghenion 50,000 o gartrefi.

**(Mwy)**

Dywedodd y Cynghorydd Russell Goodway, Cadeirydd y Cydbwyllgor: "Ymrwymodd Caerdydd i'r project hwn dan weinyddiaeth flaenorol y Democratiaid Rhyddfrydol/Plaid Cymru cyn mis Mai 2012. Fodd bynnag, mae'r Cynghorau partner wedi cydweithio'n agos i sicrhau y bydd pob cyngor ar ei ennill yn sylweddol yn sgil y project yn yr hinsawdd anodd sydd ohoni. Mae'n enghraifft wych o sut y gall cynghorau lleol gydweithio i greu seilwaith y mae ei angen yn fawr, gan sicrhau arbedion ariannol hefyd.

Drwy gydweithio, mae'r pum Cyngor wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru a phris gwell ar gyfer pob tunnell o wastraff sy'n cael ei thrin yn y cyfleuster. Mae cytundeb cyfreithiol bellach ar waith i sicrhau bod pob Cyngor yn bodloni ei rwymedigaethau cytundebol. "

Dywedodd Cyfarwyddwr Datblygu Busnes Viridor, Howard Ellard, "Ar ôl tair blynedd o dendro, rydym wrth ein bodd o lofnodi'r contract hwn ac edrychwn ymlaen at gynnig y gwasanaeth hanfodol hwn i bartneriaid y project a'u preswylwyr."

**Nodiadau i Olygyddion**

**Llywodraethu**

- Ar ôl proses dendro gadarn, argymhellwyd Viridor fel y Cynigydd a Ffefrir gan Fwrdd y Project i'r Cydbwyllgor ar 1 Chwefror. Cadarnhawyd statws y Cynigydd a Ffefrir ar 7 Chwefror pan argymhellwyd Viridor gan y Cydbwyllgor i bob Cyngor partner. Cymeradwywyd hyn gan bob Cyngor partner rhwng 26 Chwefror a 6 Mawrth.

- Cyngor Caerdydd yw Awdurdod Arweiniol y bartneriaeth ac mae Cydgytundeb Gwaith (ii) wedi'i lofnodi rhwng y Cynghorau. Gellir ei weld drwy ddilyn y ddolen ganlynol - http://www.caerffili.gov.uk/prosiectgwyrdd/pdfs/JWA2.pdf

**Contract**

- Bydd y contract yn para 25 mlynedd, gyda'r posibilrwydd o'i ymestyn am 5 mlynedd. Dyma safon y diwydiant o ran hyd contractau i sicrhau bod projectau seilwaith mawr yn fforddiadwy ac yn cynnig gwerth da am arian i'r sector cyhoeddus.

- Bydd y Bartneriaeth yn rheoli'r telerau y cytunwyd arnynt yn y contract drwy'r mecanwaith talu a'r fframwaith perfformiad. Caiff y mecanweithiau rheoli cytundebol hyn eu rheoli gan Reolwr Contract, sy'n adrodd i Fwrdd y Contract, sy'n atebol i Gydbwyllgor sy'n cynnwys dau Aelod Etholedig o bob Cyngor.

- Bydd y Prosiect yn rhoi Isafswm Tâl Gwarantedig i Viridor, yn seiliedig ar faint o dunelli o wastraff a ragwelwyd i gyflawni targedau gwastraff Llywodraeth Cymru. Mae'r amcangyfrifon gwastraff ar gyfer cyfnod y contract yn seiliedig ar y cyfraddau ailgylchu presennol, cyfraddau ailgylchu'r dyfodol a thwf poblogaeth dros gyfnod y contract.

**Cyfleuster Masnachol Viridor**

- Cyfleuster masnachol yw cyfleuster Viridor, sy'n golygu y byddai'r cwmni wedi adeiladu'r seilwaith p'un a fyddai wedi ennill contract Prosiect Gwyrdd ai peidio. Cafodd y cyfleuster ganiatâd cynllunio gan Gyngor Caerdydd a thrwydded i weithredu gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn 2010.

- Bydd cyfleuster Viridor yn cydymffurfio ag R1, a fydd yn sicrhau ei fod yn cynnig proses 'adfer'. Mae hyn yn uwch yn Hierarchaeth Wastraff yr UE na safleoedd tirlenwi, sy'n cynnig proses 'waredu'.

• Y cwmni a gynigodd maint y cyfleuster (350,000 tunnell) ac mae'n seiliedig ar dybiaethau masnachol y cwmni ei hun o ran faint o wastraff y bydd angen ei drin yn eu barn nhw. Mae'r prosesau cynllunio a thrwyddedu ar wahân i'r broses gaffael.

- Mae Viridor yn gweithio gyda Chyngor Caerdydd i ddatblygu rhwydwaith gwresogi rhanbarthol. Pan fydd y cyfleuster yn cyfuno gwres a phŵer, caiff 43 Megawat o bŵer ei gynhyrchu.

**Cyllid Llywodraeth Cymru**

• Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo Achos Busnes Terfynol y Prosiect, a gallwch weld hwn drwy ddilyn y ddolen ganlynol -
http://www.caerphilly.gov.uk/prosiectgwyrdd/pdfs/Final_Business_Case_13.02.07.pdf

• Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei dyheadau o ran rheoli gwastraff yn y Strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Gallwch weld y strategaeth drwy ddilyn y ddolen hon -
http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/waste_recycling/zerowaste/?skip=1&lang=cy

**Cynllunio Pontio**

• Mae Tîm Pontio ar waith i sicrhau bod y project yn symud yn esmwyth o'r cam caffael hyd at weithrediad y contract. Caiff gwybodaeth ei diweddaru yn www.prosiectgwyrdd.co.uk ac mae gwybodaeth am y project ar gael i randdeiliaid drwy e-bostio info@prosiectgwyrdd.co.uk neu ffonio 02920 717523.

**(diwedd)**

Cyhoeddwyd gan Prosiect Gwyrdd
E-bost: info@prosiectgwyrdd.co.uk
Ffôn: 07976 519413